


Brig y Goeder



Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

FFONIWCH 999!

SYLVIA MOODY



Lluniau gan Toni Goffe
Addasiad Cymraeg gan Juli Paschalis

© Argraffiad Saesneg, Sylvia Moody 1995
① Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2002
① Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-499-3

Cyhoeddwyd gan Wasg Addysgol Drake
Ffordd Sain Ffagan, Y Tyllgoed,
Caerdydd CF5 3AE
Ffôn: 029 2056 0333
Ffacs: 029 2055 4909
e-bost: drakegroup@btinternet.com
y we: www.drakegroup.co.uk

Argraffwyd yng Nghymru

Pennod 1



Bore Sadwrn oedd hi yn Lôn y Llan ac, fel arfer, roedd popeth yn dawel.

Dim ond deg tŷ oedd yn Lôn y Llan. Roedd y rhan fwyaf o bobl oedd yn byw yno yn casáu twrw. Ond roedd y teulu Fôn yn wahanol. Roedd Mrs Fôn, ei mab Jac, a'i merch Jên, yn byw yn Rhif Un, Lôn y Llan.

Roedd Jac yn ddeg a Jên yn naw. Cytunai pawb fod y ddau yn cadw mwy o sŵn na gweddill y stryd i gyd.

Roedd y cymdogion yn cwyno am hyn byth a beunydd.



“Mae’n ddrwg ’da fi,” byddai Mrs Fôn yn dweud. “Rwy’n ceisio eu cadw’n dawel. Ond plant ydyn nhw, wyddoch chi. Rhaid iddyn nhw gael gwared ar eu hegri.”



Roedd pobl yn lletya gyda Mrs Fôn. Carla oedd yn aros gyda nhw ar y pryd. Eidales oedd Carla ac roedd hi’n astudio Cymraeg. Roedd hi’n ferch hyfryd a byddai’n gwarchod Jac a Jên o bryd i’w gilydd. Ond fedrai Carla mo’u cadw’n dawel ychwaith.

“Blantos,” byddai’n apelio, “*bambini*, plîffs i wneud llai o *sŵn*!”




Byddai Jac a Jên yn chwerthin ar ei ffordd ryfedd o siarad Cymraeg a bydden nhw'n dawel am gyfnod. Ond toc bydden nhw'n anghofio ac yn dechrau rhedeg o gwmpas a gweiddi eto.

"Oh, oh, oh," byddai Carla yn griddfan.
"Am *bambini* swnllyd!"

Ar y prynhawn Sadwrn arbennig hwn, roedd yn rhaid i Mrs Fôn fynd i siopa.

"Jac, Jên," cyhoeddodd. "Rhaid i fi siopa y prynhawn 'ma. Rwy'n eich gadael gyda Carla ac rwy am ichi addo bod yn dawel ac ymddwyn yn dda. Bydda i gartre am bump o'r gloch. Fyddwch chi'n iawn?"

"Wrth gwrs, Mam," atebodd Jac. "Beth allai ddigwydd inni fan hyn? Does dim byth yn digwydd yn Lôn y Llan."



“Dyw e ddim fel y teledu, Mam,” meddai Jên. “Mae plant ar y teledu yn cael anturiaethau. Maen nhw’n ymladd â llewod a phethau fel yna. Ond does dim yn digwydd i ni!”



“Wel, mae’n ddrwg ’da fi,” atebodd Mam, “ond does dim llewod yn Lôn y Llan. Bydd yn rhaid ichi chwilio am rywbeth arall i’w wneud.”

Gwisgodd ei chot.

“Byddwch yn blant da!” meddai. “Bydd Carla yn gwneud te ichi. Pam na ddarllenwch chi lyfr neu chwarae gêm? Ond plis - peidiwch â chadw sŵn. Dydw i ddim am ichi dynnu Lil a Bil am eich pennau.”




Rhoddodd gwtsh i’r plant ac allan â hi.

“Lil a Bil - ych!” meddai Jên wedi i Mam fynd. “Byddai’n well gen i gwrdd â llew na chwrdd â nhw - maen nhw’n codi arswyd arna i.”

“Maen nhw’n codi arswyd ar bawb yn Lôn y Llan!” meddai ei brawd.

Lil a Bil oedd eu cymdogion yn Rhif Tri, Lôn y Llan. Roedden nhw'n byw bywyd tawel iawn gyda'u dwy gath. Bydden nhw a'r ddwy gath yn eistedd yn y ffenestr yn gwyllo, bob dydd. Roedden nhw'n adnabod pawb yn y stryd. Ac roedden nhw'n gweld popeth oedd yn digwydd.



Ond heddiw doedd dim yn digwydd yn Lôn y Llan. Roedd y ffordd yn hollol dawel.

Pennod 2



“Felly,” meddai Jac, “beth wnawn ni'r prynhawn 'ma? Wnewch chi chwarae gêm gyda ni, Carla?”

“Yn nes ymlaen,” atebodd Carla. “Rwy'n gwneud bwyd nawr. Beth chi hoffi i de?”

“Wy a sglods,” meddai Jac.

“Na, bysedd pysgod,” gwaeddodd Jên.

Dechreuodd y ddau ddadlau â'i gilydd.

Ond gallai Carla weiddi'n uwch na'r ddau.



“*Silenzio!*” bloeddiodd. “*Silenzio!* Fi gwneud ichi wy a sglods a bysedd pysgod. Chi gwneud bwrdd yn barod.”

“Gosod y bwrdd mae’n ei feddwl,” meddai Jac.

Taranodd llais Carla o’r gegin. “*Silenzio!*” Y funud honno, canodd cloch y drws.

“Felly!” meddai Carla, gan ddod i mewn i’r cyntedd. “Nawr Lil a Bil yn dod i gwyno am ormod o sŵn!”

Agorodd hi’r drws ffrynt. Yno safai gwraig dal mewn cot ddu ac yn cario bag mawr du.

“Prynhawn da,” meddai. “Rwy’n casglu ar gyfer ein ffair sborion nesaf. Oes gennych chi hen ddillad neu hen lyfrau y gallech chi eu rhoi i mi?”



Oedodd Carla.

“Un funud, plis,” meddai.

Galwodd ar Jac a Jên i ddod i’r cyntedd.

“*Bambini,*” meddai, “mae’r wraig hon eisiau llyfrau i ffair sborion. Allwch chi roi rhai chi ddim yn darllen eto?”

Nodiodd y plant a rhedeg i fyny'r grisiau i'r ystafell chwarae lle roedd eu llyfrau'n cael eu cadw.

Arhosodd Carla yn y cyntedd i siarad â'r wraig. Ond ymhen munud neu ddwy daeth sŵn dadl boeth o'r llofft.



"Rwy'n rhoi hwn," gwaeddodd Jên.

"Na, dwi eisiau hwnna. Rhown ni hwn," bloeddiodd Jac yn ôl. Daeth sŵn ffusto a sgrechian a llyfrau yn disgyn i'r llawr.

"*Mamma mia!*" ochneidiodd Carla. "Am blant! Esgusodi plis."

Rhedodd i fyny'r grisiau a chael hyd i Jac a Jên yn ymrafael â'i gilydd yng nghanol tomen o lyfrau.



Tynnodd y ddau oddi wrth ei gilydd.

"Un llyfr yr un," meddai. "Nawr! Gorffen!"

Pwdodd Jac a Jên a thawelu. Dewisodd y ddau lyfr yr un a dilyn Carla yn ôl i lawr y grisiau.

Ond pan gyrhaeddodd nhw'r cyntedd, roedd y wraig wedi mynd.

"Dyna chi," meddai Carla. "Hi wedi cael bol llawn o'ch ymladd."

Aeth allan at y glwyd a gweld y wraig yn brysio i lawr y ffordd.



"Helo," galwodd. "Mae llyfrau gennym ni!"

Ond wnaeth y wraig ddim ateb. Wnaeth hi ddim troi o gwmpas hyd yn oed.

Aeth Carla yn ôl i'r tŷ. Wrth iddi gyrraedd y drws bu ond y dim iddi gael ei gwrthio i'r llawr gan Jac a Jên oedd yn rhuthro allan i gael hyd iddi.

"Carla," llefodd Jac, "mae'r cloc wedi mynd."

"Beth chi'n feddwl?" gofynnodd Carla.

"Y cloc," meddai Jên. "Y cloc yn y cyntedd - mae wedi mynd."



Edrychodd Carla o gwmpas y cyntedd. Roedd yn wir: roedd yr hen gloc a arferai sefyll ar fwrdd y cyntedd wedi diflannu.

“Mae e yn mynd â hi,” ebychodd Carla, a'i Chymraeg yn fwy carbwl nag arfer gan ei bod wedi ypsetio. “Y wraig honno - mae e wedi mynd â'r cloc. Rhaid imi ffonio'r heddlu.” Rhedodd at y ffôn a deialu 999.

Atebodd merch.

Tân, heddlu neu ambiwlans?

Heddlu!!

Cyfeiriad?

Un, Lôn y Llan

Pam rydych chi angen yr heddlu?



“Mae lleidr yn y stryd,” gwaeddodd Carla. “Mae wedi cymryd eich cloc. Brysiwch, a gallwch ei dal hi.”

“Iawn,” meddai'r ferch. “Ceisiwch gadw'n dawel. Mae'r heddlu ar eu ffordd.”

Rhoddodd Carla y ffôn i lawr yn glep.


“Heddlu'n dod,” meddai Carla wrth y plant oedd yn sefyll yn gegrwth yn y cyntedd â'u llygaid fel peli ping-pong. “Chi'ch dau arhoswch.”




A gyda hynny rhedodd Carla allan i'r ffordd. Gallai weld y wraig yn y pellter o hyd.

“Arhoswch!” gwaeddodd gan ddechrau rhedeg ar hyd y stryd. “Lleidr, arhoswch!”

Symudodd llenni Rhif Tri, Lôn y Llan wrth i Lil a Bil edrych i weld beth oedd yn digwydd.



Pennod 3



“Beth sydd, Bil?” gofynnodd Lil. “Beth yw achos yr holl sŵn?”

“Y teulu Fôn yna eto,” atebodd Bil. “Eu myfyrwraig nhw. Mae hi allan ar y ffordd yn dawnsio ac yn sgrechian.”

Y funud honno, daeth car heddlu ar ras i mewn i Lôn y Llan a stopio'n stond y tu allan i Rif Un. Roedd ei seiren yn udo'n uchel.



Neidiodd dau blismon allan o'r car a dechrau rhedeg i lawr y ffordd ar ôl Carla a'r wraig.

"Stopiwch!" bloeddion nhw. "Stopiwch! Heddlu!"

Rhedodd pobl allan o'r tai eraill yn Lôn y Llan.

"Beth sy'n bod?" gofynnodd pawb i'w gilydd. "Beth sy'n digwydd?"

Roedd Jac a Jên yn dal i sefyll yng nghyntedd Rhif Un. Gallen nhw glywed y gweiddi a'r bloeddio yn y stryd. Roedden nhw am weld beth oedd yn mynd ymlaen.





"Dere," meddai Jac. "Dere allan i weld." Camodd y tu allan i'r drws ffrynt.

"Na," meddai Jên. Gafaelodd ynddo. "Dere'nôl. Dywedodd Carla wrthon ni i aros fan hyn."

“Gad i fi fynd!” meddai Jac gan geisio ei ryddhau ei hun o afael Jên.

“Gad i fi fynd!” atebodd Jên a dechreuodd y ddau ymladd wrth y drws.

Glynodd Jên yn y drws ag un llaw ac yn Jac â'r llaw arall. Ond roedd Jac yn rhy gryf iddi. Tynnodd e hi allan dros y trothwy a chaeodd y drws yn glep ar ei hôl.



Yr eiliad honno daeth Carla at y glwyd gydag un o'r plismyn. Roedd hi'n dal yr hen gloc yn ofalus.

“Mae'n iawn,” meddai hi wrth y plant. “Rydyn ni'n dal y lleidr. Rydyn ni'n cael yr amser yn ôl.”


Rhedodd Jac a Jên allan at y glwyd. Gwelon nhw'r plismon arall yn eistedd yn y car gyda'r wraig oedd yn gwisgo du.

Roedd y cymdogion yn crynhoi o gwmpas ac yn siarad fel melinau pupur.

“Dydyn ni ddim wedi cael yr heddlu yn Lôn y Llan erioed o'r blaen,” medden nhw. “Am gyffro!”

“Rhaid imi ofyn ambell gwestiwn ichi yn y tŷ,” meddai'r plismon cyntaf wrth Carla.

Ond gyda hynny dechreuodd ei radio swnian. Gwrandawodd am eiliad ac yna dywedodd, “Sori, argyfwng - mae damwain ar y ffordd osgoi. Rhaid inni fynd - fe ddo i 'nôl nes ymlaen.”



Neidiodd i mewn i'r car a gyrru i ffwrdd yn gyflym. Mewn fawr o dro roedd sŵn y seiren wedi diflannu yn y pellter. Daeth distawrwydd yn ôl i Lôn y Llan.

Aeth y cymdogion yn ôl i'w tai. Doedd y llenni yn Rhif Tri ddim yn symud bellach.

“Dewch nawr, plis, blant,” meddai Carla. “Gormod o gynnwrf. Awn i mewn i gael y te.”

I fyny'r grisiau â hi at y drws ffrynt.

“Pwy gaeodd y drws?” gofynnodd. Gwthiodd e, ond wnâi e ddim agor.



“Wedi cloi!” cyhoeddodd. “Pwy wnaeth hyn?”


“Jên,” atebodd Jac. “Hi dynnodd e.”

“Wnes i ddim- Jac wnaeth,” meddai Jên. “Tynnodd e fi.”


“*Silenzio!*” meddai Carla. “Welwch chi beth wnaethoch chi? Nawr rydyn ni yn y stryd!”

Gwthiodd y cloc yn flin i ddwylo Jac a dechrau cerdded o gwmpas y tŷ i geisio agor pob drws a ffenestr. Roedd pob un wedi ei gloi.

“Felly,” meddai, “eisteddwn ni yma gyda chloc ac aros eich Mam. Ffantastig!”



Pennod 4



“Mae ffenestr f’ystafell wely i yn agored,” meddai Jên. “Gallen ni ddringo i mewn y ffordd honno.”

Edrychodd pawb i fyny. Roedd yn wir. Roedd ffenestr ystafell wely Jên ar agor ac roedd pibell ddŵr lydan yn rhedeg i fyny gydag ochr y tŷ yn agos iawn ati.

Ochneidiodd Carla. “Pan rwy’n dod yma, does neb yn dweud mai dringo yw fy swydd. Nawr arhoswch yma, plis, a chadw’r cloc.”



Dringodd Carla'r bibell yn ofalus tra gwyliai'r plant, gan ddal eu hanadl.

"Rwyt ti bron yna, Carla," galwodd Jac.

"Cymer ofal, Carla," bloeddiodd Jên.

"*Silenzio!*" gwaeddodd Carla.

Roedd hi wedi cyrraedd lefel y ffenestr. Estynnodd allan i afael yn y ffrâm pan yn sydyn roedd sŵn uchel:

DONG!



Gwaeddodd Jac mewn syndod. Roedd wedi anghofio am y cloc roedd yn ei ddal.

DONG!

Roedd yr hen gloc yn taro pedwar!

DONG! DONG!

Cafodd Carla fraw wrth glywed y sŵn. Collodd ei thraed eu gafael ar y bibell a llithrodd i'r llawr. Glaniodd â chrash a dechrau ubain. "Oh, oh, fy nghoes. Rwy'n torri fy ffêr. Help!"

Roedd y plant yn syfrdan. Wydden nhw ddim beth i'w wneud am funud.


Yna meddai Jac, "Aros di gyda Carla. Rwy'n mynd i ffonio 999 - fel y dywedodd Mam wrthon ni am wneud mewn argyfwng."

"Ffonio o ble?" gofynnodd Jên.

"O dŷ Lil a Bil," meddai Jac yn ddewr.

Rhedodd i Rif Tri a ffusto ar y drws.

Symudodd y llenni ryw faint a sylodd Lil a Bil allan arno.



"Help!" gwaeddodd Jac. "Help! Rydyn ni angen ambiwlans. Brysiwch!"

Daeth Lil at y drws ffrynt a'i agor.

"Beth sydd y tro hwn?" holodd. "Un funud mae'r ferch 'na o'r Eidal yn gweiddi ac yn bloeddio lan a lawr y stryd. Wedyn mae'r heddlu'n dod. Yna mae clocioau'n taro a phobl yn bloeddio yn yr ardd ffrynt. Beth sydd y tro hwn?"

"Sori," meddai Jac. "Rhaid imi ffonio am ambiwlans. Argyfwng."

Gwelodd y ffôn yn y cyntedd a rhedodd heibio i Lil. Syllodd hithau arno. Cododd Jac y derbynnydd a deialu 999.

Yr un ferch atebodd.




“Gwn i,” meddai Jac. “Ond nawr rym ni angen ambiwlans. Mae Carla wedi brifo ei ffêr. Brysiwch, plis.”

“Iawn,” meddai'r ferch. “Ceisiwch gadw'n dawel. Mae'r ambiwlans ar ei ffordd!”



Rhoddodd Jac y ffôn i lawr a rhedodd yn ôl at Carla a Jên. Dilynodd Lil a Bil ef allan.

“Beth nesaf?” medden nhw wrth ei gilydd.
“Beth nesaf?”



Rhai munudau'n ddiweddarach, daeth ambiwlans ar ras i mewn i Lôn y Llan. Roedd ei seiren yn udo'n uchel. Stopiodd yn stond y tu allan i Rif Un a neidiodd dau ddyn ambiwlans allan.

Rhuthrodd y cymdogion allan o'u tai eto.

"Beth sy'n digwydd yn Rhif Un y tro hwn?" gofynnon nhw.



Rhedodd dynion yr ambiwlans draw at Carla a dechrau ei harchwilio.

"Rwyf ti'n iawn," meddai un ohonyn nhw. "Does dim wedi torri. Ond rwyf ti newydd gael sioc gas."

Aeth yn ôl i'r ambiwlans a diffodd y seiren. Unwaith eto, daeth heddwch yn ôl i Lôn y Llan.

Pennod 5



Aeth Lil a Bil, a fu'n sefyll â'u dwylo dros eu clustiau, yn ôl i mewn i Rif Tri. Aeth gweddill y cymdogion yn ôl i'w tai yn siarad ymhlith ei gilydd. "Ambiwylans yn Lôn y Llan!" medden nhw. "Dydi hynny ddim wedi digwydd erioed o'r blaen!"


Helpodd yr ail ddyn ambiwlans Carla i sefyll.

"Byddi di'n iawn gyda hyn," meddai wrthi. "Cer di i mewn a gorffwys am ychydig."

Snwffiodd Carla.

"Fedrwn ni ddim mynd i mewn," eglurodd Jên. A dechreuodd ddweud wrtho sut y daethon nhw i gloi eu hunain allan.

Ond yr eiliad honno daeth sŵn o'r tŷ oedd yn ddigon i hollti clustiau pawb. Roedd yn uwch na sŵn cant o gloriau.



"Oh, oh," meddai Carla. Gafaelodd yn nyn yr ambiwlans a gweiddi, "Y larwm tân. Y sglodion!"

“Beth?” gofynnodd y dyn.

“Ein te ni ydi e,” esboniodd Jên.

Rhuthrodd hi a Jac at ffenestr y gegin ac edrych i mewn. Roedd y gegin yn llawn mwg.

“Y sosban sglods!” gwaeddodd Jac. “Mae ar dân!”



Roedd Carla yn glynu yn nyn yr ambiwlans ac yn bloeddio'n orffwyll.

“Rwy'n llosgi tŷ,” sgrechiodd. “Mrs Fôn ddim yn hapus.”

Taranodd dyn yr ambiwlans arni i fod yn dawel. Yna tynnodd ffôn o'i boced a deialu 999.

Yr un ferch atebodd eto.

Tân, heddlu neu ambiwlans?

Brigâd dân os gwelwch yn dda

Cyfeiriad?

Un, Lôn y Llan

Un Lôn...gwrandewch, jôc yw hyn neu beth?

Jôc?





“Wel, i ddechrau galwoch chi’r heddlu, yna’r ambiwlans. Nawr rydych chi eisiau’r frigâd dân,” meddai’r ferch yn flin.

“Ydyn, mi rydyn ni!” atebodd y dyn. “A brysiwch! Mae’r tŷ ar dân.”

“Iawn, iawn” meddai’r ferch. “Ceisiwch gadw’n dawel. Mae’r injan dân ar ei ffordd. Ond plis - peidiwch â galw eto!”

Ymhen rhai munudau saethodd yr injan dân i mewn i Lôn y Llan.



Roedd ei seiren yn udo’n uchel. Stopiodd y tu allan i Rif Un a neidiodd byddin fach o ddynion tân allan.

“Ble mae’r tân?” gwaeddon nhw.

“Yn y gegin,” meddai Jac wrthyn nhw.

“Ond rydyn ni wedi ein cloi allan.”

Yn gyflym iawn, gosododd y dynion tân ysgol i gyrraedd ffenestr yr ystafell wely a dringodd un ohonyn nhw i mewn ag offer diffodd tân.

Roedd y cymdogion i gyd yn llifo allan o'u tai unwaith eto. Rhedon nhw ar hyd y ffordd i Rif Un.

"Tân!" gwaeddon nhw. "Mae Rhif Un ar dân!"



Yn sydyn, stopiodd y larwm tân. Yna agorodd y dyn tân y drws ffrynt o'r tu mewn. Roedd yn dal sosban sglodion ddu iawn.




"Gallwch ddweud ta-ta wrth eich te," meddai, "ond mae'r gegin yn iawn. Gallwch fynd i mewn nawr. Roeddech chi'n lwcus nad oedd hi lawer yn waeth."

Heb ddweud gair, aeth Carla a'r ddau blentyn i mewn i'r tŷ. Rhoddodd Jac y cloc ar fwrdd y cyntedd.

Y tu allan, roedd y cymdogion yn mynd yn ôl i'w cartrefi eto. Roedden nhw'n dioddef o sioc.

"Mae hyn yn ormod am un diwrnod," medden nhw. "Fedrwn ni ddim dioddef rhagor!"



Dringodd dynion yr ambiwlans yn ôl i'w cerbyd a gyrru i ffwrdd, a dringodd y dynion tân yn ôl ar yr injan dân a gyrru i ffwrdd hefyd.

Diflannodd sŵn y ddwy seiren yn y pellter a gorweddodd blanced o dawelwch annaturiol dros Lôn y Llan.

Roedd Lil a Bil yn dal wrth eu ffenestr.

"Bil," meddai Lil. "Tyn y llenni, plis. Dydw i ddim eisiau gweld unrhyw beth yn Lôn y Llan fyth eto!"

Yn Rhif Un roedd Carla a'r ddau blentyn yn disgwyl i Mrs Fôn ddod yn ôl.

Ymhen tipyn, meddai Jac, "Sori, Carla!"

"Sori, Carla," adleisiodd Jên wedyn.

"Chi'n sori, fi'n sori," meddai Carla wrthyn nhw.

Yna eisteddon nhw'n dawel nes i Mrs Fôn ddod adref.

Roedd hi 'nôl am bump.

"Helo bawb," meddai'n llawen wrth gerdded i mewn. "Rydych chi'n edrych braidd yn ddigalon. Ydych chi wedi cael prynhawn tawel braf?"



FFONIWCH 999!

“Wy a sgloodion a bysedd
pysgod,” medd Carla yn flin
wrth Jac a Jên.

Ac mae hyn yn dechrau cyfres o
drychinebau sy’n chwalu
tawelwch cysglyd Lôn y Llan.

Sut yn y byd fydd eu
cymdogion yn ymdopi?



ISBN 0 86174 499 3

DRAKE

ISBN 0-86174-499-3



9 780861 744992

Brig y Goeden



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 12